

## ASB YNG NGHYMRU: DIWEDDARIAD GAN Y CYFARWYDDWR

Adroddiad gan: Nina Purcell, Cyfarwyddwr – Is-adran Cyflenwi Rheoleiddio a Chymru a Richard Bowen, Cyfarwyddwr dros dro Cymru

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â Helen George  
E-bost: [helen.george@food.gov.uk](mailto:helen.george@food.gov.uk), Ffôn: 02920 678907

### 1 Crynodeb

1.1 Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu gweithgareddau allweddol Asiantaeth Safonau Bwyd Cymru (ASB Cymru) ers yr adroddiad blaenorol i'r Bwrdd ym mis Tachwedd 2016. Ystyrir y gweithgareddau hyn yn erbyn y canlyniadau strategol sydd wedi'u hailflaenoriaethu ar gyfer y Strategaeth hyd at 2020 a blaenoriaethau corfforaethol.

1.2 Gofynnir i'r Bwrdd:

- **roi sylwadau** ar y gwaith hyd yn hyn o ran cyflawni amcanion allweddol yr ASB yng Nghymru ers 2016;
- **cymeradwyo** ymdrechion yr ASB yng Nghymru i gyflwyno'r canlyniadau strategol wedi'u hailflaenoriaethu a blaenoriaethau corfforaethol;
- **cytuno'r** blaenoriaethau a nodir wrth fwrw golwg ymlaen (paragraff 13) ar y gwaith sydd i ddod.

### 2. Cyflwyniad

2.1 Yng Nghymru, mae'r ASB yn gyfrifol am ddiogelwch bwyd, safonau bwyd, mesurau rheoli bwyd anifeiliaid ac mae ganddi gyfrifoldeb cyffredinol am ofynion labelu bwyd a chyfansoddiad bwyd cyffredinol. Mae gan ASB Cymru 36 aelod o staff cyfwerth â llawn-amser a chyllideb flynyddol o £3.516 miliwn. ASB Cymru sy'n gyfrifol am sicrhau bod holl flaenoriaethau allweddol yr ASB yn cael eu cyflawni yng Nghymru. Mae ASB Cymru yn arwain ar ran yr ASB yn ei chyfanrwydd ar waith polisi atchwanegiadau bwyd, polisi mewn perthynas â byrgyrs heb eu coginio'n drylwyr, a'r gwaith sy'n gysylltiedig â chig defaid â'r croen ynghlwm. Ymhellach, wrth gyflwyno rhaglen Ein Ffyrdd o Weithio, mae staff ASB Cymru wedi cymryd mwy o ran yn rhaglenni'r ASB drwyddi draw ac maent bellach yn arwain a chefnogi ffrydiau gwaith Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd (UE) a Rheoleiddio Ein Dyfodol ac yn gwneud gwaith i dimau ar draws yr ASB trwy weithgareddau cyfathrebu. Mae'r dull hyblyg hwn wedi rhoi

cyfleoedd datblygu rhagorol i staff yn ogystal â galluogi'r ASB i ddefnyddio sgiliau a phrofiad ei holl staff, lle bynnag maent yn gweithio.

- 2.2 Mae'r papur hwn yn rhoi'r newyddion diweddaraf i'r Bwrdd o ran cynnydd yng Nghymru ers yr adroddiad diwethaf i'r Bwrdd ym mis Tachwedd 2016. Ers hynny, mae ASB Cymru wedi ailalunio ei hadnoddau ac wedi newid pwyslais ei hamcanion allweddol er mwyn cyflawni blaenoriaethau'r ASB a blaenoriaethau ehangach y llywodraeth mewn perthynas ag ymadael â'r UE a Rheoleiddio Ein Dyfodol, a'r heriau penodol y mae hyn yn eu cyflwyno ar gyfer ein cylch gorchwyl yng Nghymru. Mae strwythur ASB Cymru wedi'i adolygu i fod yn fwy effeithiol ac i gynnig mwy o hyblygrwydd wrth ddefnyddio adnoddau a phobl yn fwy effeithlon. Mae manteision eraill i'r ailstrwythuro, gan gynnwys cynyddu ein gallu i ddefnyddio gwybodaeth a thystiolaeth yn fwy effeithiol. Rydym ni'n bwriadu recriwtio staff ychwanegol yn y flwyddyn i ddod er mwyn gwella ein gallu i ddelio â materion yn ymwneud ag ymadael â'r UE a chyflwyno nodau rhaglen Rheoleiddio Ein Dyfodol.
- 2.3 Yn adrannau 3 i 12 isod, amlinellir prif gyflawniadau a chyfraniadau ASB Cymru tuag at flaenoriaethau allweddol yr ASB, gan gynnwys bod yn rheoleiddiwr modern rhagorol (trwy waith ymadael â'r UE a rhaglen Rheoleiddio Ein Dyfodol) a gwneud y gwaith bob dydd yn eithriadol o dda.

### **3. Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd (UE)**


- 3.1 Mae gwaith cynllunio ASB Cymru ar gyfer y diwrnod cyntaf yng Nghymru ar ôl Ymadael â'r UE wedi canolbwyntio ar y pedwar maes allweddol canlynol:
- cymryd rhan yn rhaglenni gwaith ehangach yr ASB yn ymwneud ag ymadael â'r UE;
  - sicrhau bod modd gweithredu'r holl ddeddfwriaeth bwyd berthnasol yng Nghymru;
  - gweithio gydag awdurdodau lleol i baratoi ar gyfer unrhyw newidiadau, yn enwedig yn ymwneud â bwyd wedi'i fewnforio;
  - cysylltu â Gweinidogion a swyddogion Llywodraeth Cymru i drafod ein dull amlinellol;
  - cymryd rhan mewn trafodaethau ynghylch fframweithiau'r DU.
- 3.2 Buom yn llwyddiannus mewn ymgais i gael cyllid ychwanegol gwerth £476,000 dros 3 blynedd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer Ymadael â'r UE a fydd yn ein galluogi ni i gaffael adnoddau ychwanegol i gefnogi ein gwaith.
- 3.3 Mae ASB Cymru yn cymryd rhan lawn ym mhob agwedd ar raglen waith ganolog ymadael â'r UE i sicrhau bod anghenion Cymru yn cael eu hystyried. Mae hyn yn cynnwys cynrychiolaeth ym mhob ffrwd waith.

- 3.4 Mae mwy na 90% o gyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid yn y DU yn deillio o'r UE. Mae'r mwyafrif helaeth yn deillio o reoliadau'r UE sy'n uniongyrchol berthnasol i holl aelod-wladwriaethau'r UE. Mae'n ofynnol wedyn i aelod-wladwriaethau weithredu darpariaethau o fewn eu deddfwriaeth ddomestig eu hunain i fonitro a gorfodi rheoliadau'r UE. Mae ASB Cymru yn llunio'r holl ddeddfwriaeth gorfodi berthnasol yng Nghymru ar ran Gweinidogion Cymru. Bydd Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) yn dod â chyfraith bwyd yr Undeb Ewropeaidd yn rhan o gyfraith y DU pan fyddwn yn ymadael â'r UE. Mae'n debygol y bydd rheoliadau'r UE sy'n uniongyrchol berthnasol yn cael eu diwygio ar lefel y DU. Prif gyfrifoldeb ASB Cymru yw sicrhau bod modd gweithredu deddfwriaeth gorfodi Cymru, gan roi pwerau i gyrrff gorfodi roi deddfwriaeth yr UE ar waith. Rydym wedi craffu ar 100% o'r ddeddfwriaeth ddomestig berthnasol am unrhyw elfennau anweithredol, wedi nodi pa gamau angenrheidiol sydd eu hangen ac wedi darparu cyfarwyddiadau drafftio i'n cyfreithiwr ar y rhain. Yn amodol ar y diwygiadau i ddeddfwriaeth yr UE sy'n uniongyrchol berthnasol, rydym yn hyderus y byddwn wedi cwblhau'r broses hon erbyn i'r DU ymadael â'r UE, ac y bydd llyfr statud Cymru yn weithredol.
- 3.5 Mae allforion yn her i Gymru gan nad oes ganddi'r cyfleusterau arolygu fel Arolygfeydd Ffîn neu Fannau Cyrraedd Dynodedig sydd yn ofynnol er mwyn gwneud gwiriadau ar fwyd risg uchel a fewnforir o drydydd gwledydd. Er mwyn llywio ein gwaith yn y maes hwn, rydym ni wedi trefnu ymweliadau â nifer o borthladdoedd allweddol ar draws Cymru, i ddeall mwy am y cyfaint a'r math o fwyd sy'n dod drwy'r porthladdoedd hynny a pha adnoddau sydd eu hangen yn y dyfodol i gynnal gwiriadau cymesur sy'n seiliedig ar risg. Mae'r data a gasglwyd gennym yn helpu i lywio ein gwaith cynllunio wrth gefn. Yn ogystal â deall pa wiriadau y gall fod eu hangen yn y dyfodol ac effaith bosibl hyn ar awdurdodau lleol, mae ASB Cymru yn rhan o weithgor aml-randdeiliaid sy'n datblygu hyfforddiant ar fwyd a bwyd anifeiliaid a fewnforir. Bydd y rhaglen hyfforddi yn sicrhau bod swyddogion gorfodi wedi'u hyfforddi'n ddigonol i gynnal gwiriadau mewndirol ar fwyd a bwyd anifeiliaid a fewnforir er mwyn gwneud yn siŵr bod safonau uchel o ran diogelwch bwyd a diogelu defnyddwyr yn parhau ar hyd ffiniau'r DU ac yn fewndirol. Mae ASB Cymru hefyd yn rhan o Grŵp Llywio Cynllunio Ffiniau Cymru sy'n dwyn ynghyd amryw adrannau'r llywodraeth a chynrychiolwyr o'r diwydiant.
- 3.6 Mae diogelwch bwyd a bwyd anifeiliaid yn feysydd polisi datganoledig ledled y DU ond wedi'u cysoni ar lefel yr UE. Caiff buddiannau iechyd y cyhoedd a buddiannau eraill defnyddwyr mewn perthynas â bwyd eu gwasanaethu orau drwy ddull unedig ar draws y DU. Mae Gweinidogion o Lywodraethau'r DU, Cymru a'r Alban, ac uwch swyddogion Gwasanaeth Sifil Gogledd Iwerddon, wedi gofyn i swyddogion ym mhob gweinyddiaeth gydweithio i drafod yn fanwl

Ile bydd angen dulliau (fframweithiau) deddfwriaethol cyffredin ar lefel Prydain Fawr neu'r DU unwaith y byddwn ni'n ymadael â'r UE. Mae ASB Cymru wedi bod yn cydweithio'n agos ar draws yr ASB/Safonau Bwyd yr Alban (FSS), gweinyddiaethau datganoledig ac adrannau eraill y llywodraeth i weithio tuag at gytundeb rhwng y pedair gweinyddiaeth ar yr angen i gynnal fframwaith ledled y DU ar gyfer meysydd polisi a gynhelir ar hyn o bryd gan ddeddfwriaeth yr UE.

#### 4. Rheoleiddio Ein Dyfodol (ROF)

4.1 Gwnaed sylwadau i Lywodraeth Cymru (LIC) gan rai rhanddeiliaid allweddol yng Nghymru, ynghylch trywydd rhaglen ROF yr ASB. Roedd y pryderon hyn yn ymwneud â'r broses ymgysylltu a phryderon ynghylch goblygiadau posibl a ragwelir ar y



gyfundrefn reoleiddio gydlynol a chadarn sy'n bodoli yng Nghymru. O ganlyniad i'r pryderon hyn, ac o ystyried datganiad sefyllfa Llywodraeth Cymru ym mis Rhagfyr 2016 ar gynigion ROF, yn gynnar yn 2017 fe wnaeth Gweinidogion Cymru gomisiynu gweithgor newydd i ystyried ymgysylltiad ehangach â rhaglen ROF, yn enwedig mewn perthynas â thirwedd llywodraeth leol Cymru a diweddariadau ac ymgynghoriadau. Arweinir y gweithgor gan Brif Swyddog Iechyd yr Amgylchedd Llywodraeth Cymru. Mae'r ASB yn rhan annatod o'r grŵp sy'n cyflawni ei ddisgwyliadau o ran rhoi sicrwydd i Weinidogion Cymru fod y diwygiadau rheoleiddio arfaethedig yn briodol i anghenion Cymru ac yn ystyried Datganiad Sefyllfa Llywodraeth Cymru. Cyflawnir hyn drwy adeiladu perthynas ffurfiol a pherthynas anffurfiol gyda dylanwadwyr allweddol y grŵp rhanddeiliaid.

4.2 Rydym wedi cynnal rhaglen ymgysylltu gynhwysfawr ar ROF gyda phartneriaid cyflwyno allweddol a rhanddeiliaid eraill yng Nghymru i roi diweddariadau ar ein cynigion ar y Model Gweithredu Targed (TOM) newydd ac i geisio safbwyntiau i lywio ei ddatblygiad. Cynhaliwyd digwyddiad ar gyfer awdurdodau lleol Cymru ym mis Mehefin 2017 lle cafodd fersiwn ddiweddaraf y TOM ei hystyried yn fanwl. Ategwyd hyn gan weithdai ychwanegol ddechrau 2018, a oedd yn edrych yn benodol ar gynigion ar gyfer segmentu. At ei gilydd, bu cefnogaeth i'r cynigion ar gofrestru manylach. Mae rhai meysydd o'r rhaglen ROF yn parhau i beri pryder, yn enwedig mewn perthynas â segmentu busnesau bwyd, a'r

awydd i gynnal uniondeb y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd (CSHB) yng Nghymru. Byddwn yn parhau i ymgysylltu â rhanddeiliaid yng Nghymru wrth i'r rhaglen ddatblygu. Mae ein hymgysylltiad parhaus yn cael effaith gadarnhaol, ac mae nifer o awdurdodau lleol yng Nghymru yn cynorthwyo wrth lywio'r dull ac yn mynd ati i beilota a phrofi'r 'gwasanaeth digidol newydd ar gyfer cofrestru busnesau bwyd', er enghraifft.

## 5. Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd (CSHB)

5.1 Mae gweithredu'r CSHB a chefnogi Llywodraeth Cymru mewn cysylltiad â Deddf Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) 2013 a'r rheoliadau cysylltiedig wedi parhau i fod yn ganolbwynt ar gyfer gweithgarwch ASB Cymru. Mae ASB Cymru wedi cynhyrchu nifer o adroddiadau fel sy'n ofynnol dan Ddeddf Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) 2013. Ym mis Chwefror 2017, cynhyrchodd ASB Cymru adroddiad yn dilyn



adolygiad o weithrediad y system apelio ar gyfer y cyfnod rhwng 28 Tachwedd 2015 a 27 Tachwedd 2016. Gosodwyd yr adroddiad gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar 28 Chwefror 2017<sup>1</sup>. Roedd canfyddiadau allweddol yr adolygiad yn cynnwys y canlynol: roedd 1.9% o fusnesau yng Nghymru a gafodd sgôr hylendid bwyd rhwng '0' a '4' wedi cyflwyno apêl; a daethpwyd i benderfyniad ar 92.6% o'r apeliadau o fewn yr amserlen statudol o 21 diwrnod.

5.2 Cyhoeddwyd adroddiad pellach ym mis Chwefror 2018<sup>2</sup> i fodloni'r gofyniad i'r ASB gynnal adolygiad tair blynedd o'r gwaith o weithredu'r Cynllun o 28 Tachwedd 2014 tan 27 Tachwedd 2017, ac adolygiad blynyddol pellach o'r gwaith o weithredu'r system apelio tan 27 Tachwedd 2017. Yn dilyn yr adolygiad o'r gwaith o weithredu'r system apelio, canfuwyd bod awdurdodau lleol yng Nghymru yn gweithredu yn unol â'r Ddeddf a'r canllawiau statudol i raddau helaeth rhwng 28 Tachwedd 2016 a 27 Tachwedd 2017. Dim ond pedair o'r 100 apêl a ddaeth i law a bennwyd y tu allan i'r cyfnod o 21 diwrnod a daeth bob un i ben o fewn 25 diwrnod. Roedd llai na 2% o'r busnesau bwyd wedi apelio yn erbyn eu sgoriau hylendid; o'r achosion hyn, ni newidiwyd 84% ohonynt a dim ond 16% arweiniodd at newidiadau i'r sgoriau hylendid bwyd.

<sup>1</sup> <http://www.assembly.wales/laid%20documents/agr-ld10952/agr-ld10952-w.pdf>

<sup>2</sup> <http://www.assembly.wales/laid%20documents/gen-ld11433/gen-ld11433-w.pdf>

- 5.3 Roedd yr adroddiad diweddaraf yn dangos bod arddangos gorfodol wedi bod yn llwyddiant yng Nghymru. Mae nifer y busnesau bwyd â sgôr o 5 (da iawn) wedi cynyddu o 21 pwynt canran, mae gan 95% o fusnesau sgôr o 3 (boddhaol ar y cyfan) neu uwch, a bu cynnydd o 16 pwynt canran yn nifer y sgoriau a arddangosir, i 84% yn 2017, ar gyfer pob sgôr. Mae adnabyddiaeth defnyddwyr yn dal i gynyddu, gydag 89% yn adnabod delweddau o'r sgoriau yn 2016 o'i gymharu â 76% yn 2014 a 43% yn 2012. Mae gwaith ymchwil a gomisiynwyd gan yr ASB yn darparu tystiolaeth gadarn bod arddangos gorfodol wedi arwain at fusnesau bwyd yn cydymffurfio'n well ac yn fwy cyson â rheolaethau diogelwch bwyd ac yn darparu mwy o dryloywder i ddefnyddwyr yng Nghymru. Mae'r adroddiad yn darparu tystiolaeth bod newidiadau i'r Cynllun, a gyflwynwyd o fewn y tair blynedd diwethaf, wedi arwain at welliannau o ran mynediad defnyddwyr at sgoriau hylendid wrth archebu bwyd. Mae'r newidiadau hyn wedi galluogi busnesau sy'n caffael bwyd, a sefydliadau eraill, i ddefnyddio gwybodaeth am sgoriau sydd wedi'i chyhoeddi, a chael budd ohoni. Mae hyn wedi sicrhau llwyddiant parhaus y Cynllun.
- 5.4 Mae'r adroddiad yn cydnabod yr angen i ystyried effaith tirluniau polisi a rheoleiddio ar y Cynllun, ac yn nodi meysydd y mae gofyn gweithio arnynt ymhellach er mwyn sicrhau bod gan ddefnyddwyr fynediad at wybodaeth ystyrlon. Mae awdurdodau lleol yn hynod ymrwymedig i gynnal y Cynllun ac yn chwarae rhan bwysig o ran sicrhau ei fod yn parhau i fod yn gredadwy, yn gyfredol ac yn deg i bob busnes bwyd yng Nghymru. Mae angen ystyried yn ofalus sut i gynnal y Cynllun yn wyneb llai o adnoddau gan awdurdodau lleol, a bydd yr ASB yn gweithio gyda'r holl randdeiliaid perthnasol i archwilio sut y gellir sicrhau dyfodol y Cynllun. Mae'r adolygiad hwn wedi nodi 14 argymhellion ynglŷn â gweithrediad parhaus y Cynllun yng Nghymru, ac mae'r argymhellion hyn yn cael eu rhoi ar waith ar hyn o bryd.

## **6. Perfformiad wrth gyflawni ymyriadau hylendid bwyd**

- 6.1 Ym mis Tachwedd 2017, aeth yr ASB ati i ddadansoddi'n fanwl data ymyriadau hylendid bwyd LAEMS yng Nghymru ar gyfer y cyfnod 2014-2017. Dangosodd y data welliannau cyffredinol wrth gyflwyno ymyriadau a raglennir gan awdurdodau lleol a bod dull seiliedig ar risg wedi'i fabwysiadu. Nododd y dadansoddiad fod pump awdurdod lleol wedi adrodd mwy na 200 o sefydliadau bwyd risg is a oedd yn hwyr yn cael ymyriad yn ystod cyfnod adrodd 2016/17. Ysgrifennodd yr ASB at Brif Weithredwyr y pum awdurdod i'w hatgoffa o'r gofyniad i gyflawni ymyriadau hylendid bwyd yn brydlon ac i ofyn iddynt nodi eu cynlluniau ar gyfer gwella perfformiad. Ymrwymodd bob un o'r awdurdodau hyn i wneud gwelliannau angenrheidiol. Ar ôl hynny, cynigodd yr ASB gyllid untro i rai awdurdodau lleol i gefnogi eu harolygiadau hylendid bwyd hyd at 31 Mawrth 2018. Targedwyd y cyllid at awdurdodau a oedd wedi adrodd y nifer uchaf o

ymyriadau hwyr yn 2016/17. Dyrannwyd cyllid i 10 awdurdod lleol ar gyfer cyflawni bron 700 o arolygiadau hylendid bwyd cyflawn. Dyfarnwyd sgoriau hylendid bwyd newydd i'r holl sefydliadau hyn er budd defnyddwyr.

- 6.2 Yn 2018, mae awdurdodau lleol yng Nghymru wedi cyfrannu at y gweithgareddau canlynol mewn cysylltiad â ROF:
- ymchwil ar 'lif sefydliadau busnes bwyd i'r system reoleiddio';
  - digwyddiad Cymru gyfan i ystyried safonau bwyd yng nghyd-destun ROF;
  - arolwg adolygiad cyflenwi safonau bwyd;
  - dau weithdy ar gynigion segmentu ROF;
  - darparu gwybodaeth ar eu systemau TG; ac mae dau awdurdod yn cyfrannu at ddatblygu a phrofi'r gwasanaeth digidol newydd ar gyfer cofrestru busnesau bwyd;
  - ymgynghori ar gynigion ar gyfer Strategaethau Arolygu Cenedlaethol y Prif Awdurdodau ar gyfer bwyd;
  - arolwg ar awdurdodau lleol yn codi tâl am wasanaethau dewisol.

## **7. Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd**

- 7.1 Yn 2017, cyhoeddodd ASB Cymru ddiwygiadau i'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd (y Cod) ar gyfer Cymru<sup>3</sup>. Diwygiwyd y Cod i egluro trefniadau ar gyfer cofrestru busnesau bwyd ac arolygu sefydliadau bwyd symudol, llongau ac awyrennau. Diwygiwyd y gofynion cymhwysedd a chymhwyster ar gyfer swyddogion awdurdodedig sy'n ymwneud â chyflawni rheolaethau swyddogol a gweithgareddau gorfodi eraill. Yn ddiweddar, diweddarwyd y Cod yng Nghymru i alinio'r canllawiau gyda'r Codau ar gyfer Lloegr a Gogledd Iwerddon.<sup>4</sup> Cynigir diwygiadau pellach. Dechreuodd ymarfer ymgynghori cyhoeddus 12 wythnos o hyd yng Nghymru ym mis Awst 2018, i ddiwygio'r Cod yng Nghymru i gyflwyno newidiadau gweithredol a nodwyd trwy raglen ROF. Mae'r ymgynghoriad hwn yn canolbwyntio ar newidiadau arfaethedig a fydd yn dod i rym ar ôl Ebrill 2019, i wneud newidiadau i'r broses o gofrestru busnesau bwyd, i gymhwyso cynllun sgorio ymyriadau sefydliadau bwyd ac i gydnabod Strategaethau Arolygu Cenedlaethol. Bydd y broses ymgynghori hefyd yn manteisio ar y cyfle i gael barn gynnar gan randdeiliaid ar agweddau cyd-ddibynnol eraill ar raglen ROF sy'n dal i gael eu datblygu. Mae ymgynghoriadau ar y cynigion hyn hefyd yn cael eu cynnal yn Lloegr a Gogledd Iwerddon.

## **8. Diogelu defnyddwyr**

<sup>3</sup> <https://www.food.gov.uk/cy/about-us/codau-ymarfer-cyfraith-bwyd-a-bwyd-anifeiliaid>

<sup>4</sup> <https://www.food.gov.uk/cy/about-us/codau-ymarfer-cyfraith-bwyd-a-bwyd-anifeiliaid>

8.1 Mae ASB Cymru yn parhau i ddatblygu ei gallu i fynd i'r afael â thwyll bwyd a throeddau bwyd yng Nghymru, yn enwedig trwy'r gwaith a wneir gan Uned Cydgysylltu Twyll Bwyd Cymru (WFFCU). Ein prif ffocws yw datblygu a meithrin perthynas gydweithredol rhwng gweithrediadau'r WFFCU a'r Uned Genedlaethol Troseddau Bwyd (NFCU) i rannu gwybodaeth am droseddau bwyd er mwyn cynorthwyo i ganfod ac ymateb i droseddau bwyd. Yn dilyn penderfyniadau a wnaed yng nghyfarfod Bwrdd yr ASB ym mis Mehefin 2018, mewn perthynas â datblygu'r NFCU i fod â'r gallu i weithredu o ddechrau'r gwaith i'w ddiwedd, byddwn yn awr yn parhau â'n trafodaethau ynghylch natur unrhyw Uned o'r NFCU yng Nghymru o ran sicrhau bod gwaith yr WFFCU bresennol yn parhau a sut y gellid ei alinio â'r NFCU.

## 9. Atchwanegiadau bwyd

9.1 Mae atchwanegiadau bwyd yn ddiwydiant sy'n tyfu'n gyflym, gyda meysydd cyfrifoldeb sy'n gorgyffwrdd rhwng adrannau'r llywodraeth. Mae nifer o farwolaethau proffil uchel yn y blynyddoedd diwethaf wedi amlygu'r angen am gamau gorfodi mwy effeithiol gan yr ASB.

9.2 Cafodd ASB Cymru y cyfrifoldeb am arwain polisi'r ASB ar atchwanegiadau bwyd, gan ein hysgogi i fod yn fwy gweithredol drwy nodi'r risgiau allweddol i ddefnyddwyr a'r camau gweithredu effeithiol sydd eu hangen i fynd i'r afael â'r rhain.

9.3 Yn dilyn rhaglen ymgysylltu â rhanddeiliaid, datblygodd ASB Cymru strategaeth atchwanegiadau bwyd gyntaf yr ASB, gan nodi beth oedd yr heriau, pa gamau oedd angen eu cymryd a beth fyddai'n cael ei ystyried yn llwyddiant. Mae'r strategaeth yn tynnu ynghyd y gwaith sydd eisoes yn cael ei wneud ar draws yr ASB, er enghraifft, y gwaith dan arweiniad y tîm Bwydydd Newydd a'r NFCU, ac allbynnau newydd a nodwyd. Mae'r allbynnau hyn yn cynnwys:

- gwaith deall defnyddwyr a gomisiynwyd i lywio datblygiad gwaith yr ASB ar atchwanegiadau bwyd dros yr ychydig flynyddoedd nesaf gan gynnwys nodi unrhyw risgiau sy'n dod i'r amlwg, a chefnogi gwaith gorfodi effeithiol sydd wedi'i dargedu gan awdurdodau lleol a'r NFCU. Roedd y gwaith yn cynnwys arolwg defnyddwyr byr, grwpiau ffocws a chyfweliadau manwl. Yn gyffredinol, canfu'r ymchwil fod defnyddwyr yn cymryd atchwanegiadau bwyd yn ddiogel ac yn prynu gan fanwerthwyr prif ffrwd credadwy. Fodd bynnag, datgelodd hefyd ddefnydd o atchwanegiadau 'niche' at ddibenion penodol megis colli pwysau neu faeth chwaraeon. Gan nad yw'r cynhyrchion 'niche' hyn ar gael mor eang, mae llawer yn cael eu gwthio i brynu ar-lein; sy'n arwain at begwn eithafol y farchnad;



- pecyn gorfodi ar gyfer awdurdodau lleol i'w cynorthwyo i gynllunio ac ymgymryd ag arolygiadau o weithredwyr busnesau bwyd sy'n gwerthu atchwanegiadau bwyd. Mae'r pecyn yn nodi materion i'w hystyried, pwerau a throseddau perthnasol, a champau i'w cymryd os darganfyddir cynhyrchion nad ydynt yn cydymffurfio. Mae fersiynau gwahanol wedi'u cynhyrchu ar gyfer Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon i adlewyrchu gwahanol ddeddfwriaeth a chyrrff gorfodi, a fersiwn Gymraeg hefyd;
- taflen fer ar gyfer manwerthwyr atchwanegiadau bwyd nad ydynt yn rhai traddodiadol, megis campfeydd, sbas harddwch neu salonau lliw haul, gan eu hatgoffa o'u cyfrifoldebau cyfreithiol wrth werthu atchwanegiadau bwyd;
- gweithgor traws-lywodraethol sy'n dwyn ynghyd swyddogion perthnasol i rannu data, blaenoriaethu camau gweithredu, datblygu offer a rhoi cyngor fel sy'n briodol. Mae'r grŵp yn cwrdd bob chwarter ac yn galluogi materion trawsbynciol a risgiau sy'n dod i'r amlwg i gael eu rhannu rhwng y gwahanol adrannau;
- cyd-reoleiddio'r diwydiant, gan ddod â chyrrff masnach, awdurdodau lleol a rheoleiddwyr eraill at ei gilydd i fynd i'r afael ag achosion o ddiffyg cydymffurfio parhaus ar y cyd;
- Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth gyda'r Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd (gweler isod am fanylion).

## 10. Memoranda Cyd-ddealltwriaeth (MoU)

- 10.1 Ers yr adroddiad blaenorol, mae ASB Cymru wedi datblygu a gweithredu memoranda cyd-ddealltwriaeth gyda sefydliadau i ffurfioli ei threfniadau gwaith a'i pherthynas waith. Mae'r MoU rhwng yr ASB a [Welsh Lamb and Beef Producers Ltd \(WLBP\)](#) yn pennu'r egwyddorion cyffredinol o ran cydweithio, cydweithredu, rolau a chyfrifoldebau, sy'n cefnogi'r broses o ennill cydnabyddiaeth sy'n cynnwys yr ASB a WLBP. Yn benodol, mae'n darparu fframwaith penodol ar gyfer ennill cydnabyddiaeth i fusnesau sy'n cydymffurfio ac sy'n aelodau o gynllun [Anifeiliaid Fferm Sicr Cymru \(FAWL\)](#).
- 10.2 Mae'r ASB hefyd wedi arwyddo MoU gyda'r Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd (MHRA). Mae'r MHRA yn Asiantaeth Weithredol ar ran yr Adran Iechyd a'r MHRA yw Awdurdod Cymwys y DU dan Gyfarwydddebau perthnasol yr UE ar gyfer cynhyrchion meddyginiaethol, dyfeisiau meddygol ac ar gyfer gwaed a chydrannau gwaed. Mae hyn yn arbennig o berthnasol i waith yr ASB ar atchwanegiadau bwyd a bwydydd newydd, er enghraifft, lle rydym ni'n cydweithio'n agos â'r MHRA ar statws cynhyrchion sy'n ffinio rhwng bod yn fwyd ac yn feddyginiaethau. Mae'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth newydd yn nodi'r fframwaith i gefnogi ein perthynas gydweithio.

## 11. Ymgysylltu

11.1 Mae ASB Cymru wedi parhau i gyflwyno rhaglen o weithgareddau ymgysylltu sy'n canolbwyntio ar ysgolion, digwyddiadau cyhoeddus allweddol a hefyd gyda rhanddeiliaid allweddol. Mae dwy raglen fawr o weithgarwch sy'n cynnal gweithdai diogelwch bwyd mewn ysgolion cynradd yng Nghymru wedi parhau. Bu ASB Cymru yn bresennol mewn digwyddiadau cyhoeddus allweddol gan gynnwys yr eisteddfodau a'r prif sioeau amaethyddol a gynhaliwyd yn ystod 2017 a 2018.



Lansiwyd stonidn gorfforaethol newydd ASB Cymru yn Sioe Frenhinol Cymru eleni, gyda ffigyrau ymweld da yn golygu bod cyfle i gael trafodaethau ystyrion gyda defnyddwyr.

11.2 Hefyd, ar ôl ymgymryd ag ymchwil ymhlith Aelodau'r Cynulliad a ganfu bod eu hymwybyddiaeth o'r ASB yng Nghymru a'i chylch gwaith, a'u gwybodaeth am yr ASB yn isel, rydym wedi blaenoriaethu rhaglen ymgysylltu gyda nhw. Ym mis Mehefin 2018 ysgrifennodd ASB Cymru at bob Aelod Cynulliad (AC) gan roi trosolwg iddynt o'n cylch gwaith. Rydym yn bwriadu dilyn hyn â diweddariadau er mwyn rhoi gwybod iddynt am faterion allweddol, a chynnig derbyniad i Aelodau'r Cynulliad cyn diwedd y flwyddyn. Bydd hyn o fudd i'r Asiantaeth trwy godi ymwybyddiaeth ymhlith Aelodau'r Cynulliad, a chychwyn deialog ar ymholiadau etholwyr.


## 12. Materion penodol i Gymru

12.1 Daeth Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017<sup>5</sup> i rym ar 16 Mai 2017. Mae'r Ddeddf yn cyflwyno llw o fesurau newydd wedi'u cynllunio i wella iechyd a lles pobl Cymru. Yr hyn sydd o ddiddordeb arbennig i'r ASB yw'r ffaith bod y Ddeddf yn galluogi 'awdurdod bwyd' o dan Ddeddf Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) 2013, i gadw derbynebaw cosb benodedig o ganlyniad i droseddau o dan y Ddeddf honno, er mwyn gorfodi'r CSHB. Bydd y mesur newydd hwn yn cynorthwyo awdurdodau lleol i adennill y costau sy'n gysylltiedig â mynd i'r afael ag achosion o beidio â chydymffurfio. Bydd y mesur yn cael effaith gadarnhaol wrth helpu i gynnal llwyddiant parhaus y CSHB yng Nghymru. Agwedd arall ar

<sup>5</sup> <http://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2017/2/contents/enacted>

y Ddeddf, y bydd angen i'r ASB fod yn ymwybodol ohoni, yw'r gofyniad i gynnal asesiadau gorfodol o'r effaith ar iechyd (HIA) dan amgylchiadau penodol. Nid yw'r adran ynglŷn â HIA wedi'i rhoi ar waith eto felly nid yw'r gofynion yn berthnasol ar hyn o bryd. Ar ôl ei rhoi ar waith, bydd yr adran yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau ynghylch cynnal asesiadau o'r effaith ar iechyd gan gyrrff cyhoeddus yng Nghymru. Disgwylir i reoliadau Gweinidogion Cymru roi rhagor o fanylion ar y math o 'gampau gweithredu' y bydd yr asesiadau o'r effaith ar iechyd yn berthnasol iddynt.

12.2 Er nad yw'r ASB yn gorff a enwir yn y Ddeddf, mae wedi cytuno i gyfrannu at ofynion Llywodraeth Cymru fel y manylir arnynt yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015<sup>6</sup> i wella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae ASB Cymru wedi mapio ac alinio ei gweithgareddau i nodau ac egwyddorion y ddeddfwriaeth. Mae'n cydnabod pa mor bwysig yw gallu dangos sut mae'r ASB yn cyfrannu at y dangosyddion cenedlaethol sydd wedi'u gosod at ddibenion mesur cynnydd tuag at gyflawni'r nodau Lles<sup>7</sup>. Mae pob cyflwyniad i Weinidogion Cymru gan yr ASB yn nodi unrhyw gyfraniadau a byddwn yn parhau i gefnogi dull sy'n cyfarwyddo busnes yr ASB i wneud cyfraniad mesuradwy at ofynion y Ddeddf.



12.3 Yn ysbryd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, dros gyfnod yr adroddiad mae ASB Cymru wedi bod yn datblygu ei phortffolio o dystiolaeth i gefnogi gwobr gan Iechyd Cyhoeddus Cymru o dan y Safon Iechyd Gorfforaethol<sup>8</sup> fel rhan o raglen Llywodraeth Cymru, sef 'Cymru Iach ar Waith'. Mae ASB Cymru wedi bod yn ymgorffori iechyd a lles o fewn diwylliant y gweithle ac mae wedi datblygu cynllun gweithredu iechyd a lles sy'n dangos dull cynlluniedig at wella iechyd a lles.

<sup>6</sup> <https://gov.wales/topics/people-and-communities/people/future-generations-act/?skip=1&lang=cy>

<sup>7</sup> <https://gov.wales/docs/desh/publications/160316-national-indicators-to-be-laid-before-nafw-cy.pdf>

<sup>8</sup> <https://gov.wales/docs/phhs/publications/141015corporatocy.pdf>

12.4 Yn dilyn asesiad annibynnol, mae ASB Cymru yn falch o roi gwybod ei bod wedi cael cydnabyddiaeth gwobr efydd ym mis Awst 2018 ar gyfer iechyd a lles y gweithle. Mae'r adroddiad a luniwyd yn dilyn yr asesiad yn cynnig awgrymiadau ar gyfer camau gweithredu pellach, y gellir eu defnyddio fel ysgogiad ar gyfer datblygu yn y dyfodol a symud ymlaen i'r lefel nesaf. Daeth yr aseswyr i'r casgliad y dylid annog ASB Cymru i anelu am wobwr arian yn y flwyddyn i ddod. Mae'r wobwr hon yn cydnabod ymrwymiad parhaus ac amlwg tuag at iechyd yn y gweithle a dull cynlluniedig at wella iechyd a lles gweithwyr ASB Cymru.

### 13. Bwrw Golwg Ymlaen

13.1 Mae ASB Cymru yn bwriadu parhau â'r dull o dargedu ein blaenoriaethau allweddol o ddiwygio rheoleiddiol, ymadael â'r UE a chyflawni'r gwaith bob dydd i safon eithriadol o dda. Mae gweithgareddau allweddol ASB Cymru ar gyfer y ddwy flynedd nesaf yn cynnwys y canlynol:

- parhau i ymgysylltu â rhanddeiliaid, gweithio'n agos gyda chydweithwyr yng Nghymru a chymryd rhan mewn ffrydiau gwaith priodol yr ASB a Llywodraeth Cymru mewn perthynas ag ymadael â'r UE;
- sicrhau bod rhanddeiliaid Cymru'n chwarae rhan lawn yn natblygiad rhaglen Rheoleiddio Ein Dyfodol (ROF) gan ystyried mewnbwn gan y diwydiant a'r gymuned orfodi fel y bo'n briodol;
- cyfrannu at waith Llywodraeth Cymru sydd ar y gweill gyda Bwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru i ddatblygu cynllun gweithredu bwyd a diod i olynu 'Tuag at Dwf Cynaliadwy', sy'n dod i ben ym mis Rhagfyr 2019;
- parhau i adolygu dyraniad gwariant er mwyn sicrhau y glynir at derfynau a gymeradwywyd ac er mwyn osgoi effeithiau niweidiol ar y gwaith o gyflawni amcanion strategol yr ASB yng Nghymru;
- cadw llygad ar Ddiwygio Llywodraeth Leol yng Nghymru;
- gwella ein gweithgareddau ymgysylltu ag Aelodau'r Cynulliad yn benodol;
- adolygu Cynllun Iaith Gymraeg yr ASB;
- anelu at ennill gwobr arian y Safonau Iechyd Corfforaethol;
- cyflwyno cynllun busnes ASB Cymru ar gyfer 18/19.

### 14. Casgliad ac Argymhellion

14.1 Gwahoddir y Bwrdd i wneud y canlynol:

- **rhoi sylwadau** ar y gwaith hyd yn hyn o ran cyflawni amcanion allweddol yr ASB yng Nghymru ers 2016.

- **cymradwyo** ymdrechion yr ASB yng Nghymru i gyflwyno'r blaenoriaethau corfforaethol a'r canlyniadau strategol wedi'u hailflaenoriaethu.
- **cytuno'r** blaenoriaethau a nodir wrth fwrw golwg ymlaen (paragraff 13) ar y gwaith sydd i ddod.